

Pigiad yr ysgorpion

*“Yr wyffi mewn gofid a phoen; trwy dy waredigaeth, O Dduw, cod fi i fyny.”
(adn. 29)*

Beth am ddarllen Salm 69:29–36 ac yna myfyrio

Bu inni orffen ddoe trwy ddweud, er efallai bod poen yn dod o ffynhonnell ddrwg, mai'r cwestiwn pwysig yw nid o ble y daeth ond i ble mae'r boen yma'n mynd. Nid gwneud yn ysgafn o boen yw hyn, nac ychwaith ceisio osgoi'r cwestiwn pam fod Duw sy'n hollalluog ac yn caru ei bobl wedi creu bydysawd lle mae poen yn realiti. Mi fyddai mynd i mewn i'r rhesymau pam fod Duw yn caniatáu i boen ddod yn rhan o fywyd y ddaer y tu hwnt i gwmpawd yr astudiaethau hyn; fy nghonsym yma yw eich cynorthwyo i ganiatáu i Dduw ddod i ganol eich poen gan ganiatáu iddo ar yr un pryd i droi'r boen yr ydych yn ei wynebu, neu'r hyn a fydd yn dod i'ch rhan, i ryw ddibenion daionus. Ffocws fy astudiaethau fydd y poenau meddyliol ac emosiynol sydd yn codi o'm mewn, ond mi fyddaf yn cyfeirio hefyd at boen corfforol.

Rhai o'r poenau anoddaf mae unigolion yn gorfod eu cario yw poenau emosiynol – y gofid sy'n llosgi fel tân, yr unigrwydd sydd yn ein meddiannu fel cwmwl tywyll, y boen yna sydd yn effeithio ar ein holl olwg ar fywyd, poen tebyg i bigiad yr ysgorpion sydd yn medru gadael person yn gwbl ddisymud. O ddydd i ddydd, bydd dynion a merched yn byw eu bywydau mewn ffordd ddigon cyffredin (ac yn aml yn gwneud hynny gyda gwên fawr) tra o dan yr wyneb tawel hwnnw mae yna galon glwyfedig. Mae pawb yn gwybod ei bod hi'n haws dweud “Mae dannodd arnaf” yn hytrach na “Mae fy nghalon wedi torri”. Yn absenoldeb dim byd gweladwy, nid yw pobl fel rheol yn barod i estyn fawr iawn o gydymdeimlad gyda chalon felly.

Fe all pob un ohonom ymateb i boen gyda mawl a diolchgarwch fel ag y gwelwn y Salmydd yn ei wneud yn y testun heddiw. Tebyg nad ei ymateb duwiol ef yw ein hymateb ni ond gobeithio yn ystod y diwrnodau hyn y byddwn yn dysgu rhai pethau fydd yn ein cynorthwyo i ymateb yn debycach iddo.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 34:1–10; 1 Pedr 4:12–19

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam fod Dafydd yn ymffrostio yn yr Arglwydd?
2. Yn ôl Pedr, sut mae'n bosibl i'r Cristion godi uwchben ei boen?

Gweddi

Fy Nuw, fy Nhad, cynorthwya fi i weddio yn wastad am gael adnabod y gyfrinach yna o sut mae codi uwchlaw fy ngofidiau mewn mawl ac addoliad – gofidiau meddyliol, emosiynol a hyd yn oed anhwylderau corfforol. Arglwydd, cynorthwya fi yn enw Iesu. Amen.